# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 22 Mai 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry, Allan Pennington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gweddnewid Busnes Ac Adfywio (BJ), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Pennaeth Gwasanethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP), Swyddog Cynnal Archwilio (RE) and Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

## GWEDDI

Cyflwynodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd J.R. Bartley y weddi ar ddechrau'r cyfarfod.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Alice Jones, Dewi Owens a/ac Cefyn Williams

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhai a oedd yn rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

NI chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AC AELODAETH PWYLLGOR

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, yn hwyluso adolygiad statudol cydbwysedd gwleidyddol ac yn ystyried gofynion aelodaeth Pwyllgor, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol i ddyrannu seddau ar amrywiol bwyllgorau, yn unol â darpariaethau statudol cydbwysedd gwleidyddol Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a'r Rheoliadau. Yr ymrwymiad statudol yw gweithredu, cyn belled ag y bo'n ymarferol yn rhesymol, y bedair egwyddor yn y Ddeddf gyda'r nod o osgoi pwyllgorau un blaid tra'n caniatáu i blaid sydd â mwyafrif gael mwyafrif y seddau ar y pwyllgor.

Roedd manylion Pwyllgorau a Phaneli'r Cyngor, a chyfanswm nifer y seddau a "oedd ar gael" ac angen eu dosbarthu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, wedi eu cynnwys yn Atodiad 2. Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn am sefydlu dau bwyllgor newydd: Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Roedd y Mesur hefyd yn pennu sut dylid dyrannu swyddi Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu, yn adlewyrchu sefyllfa o blaid cael cadeiryddion craffu a oedd, cyn belled ag y bo modd, yn annibynnol o arweinyddiaeth y Cyngor ac yn gysylltiedig â chydbwysedd gwleidyddol.

Roedd crynodeb o'r materion i'r Grwpiau eu hystyried wrth benodi eu Haelodau i Bwyllgorau wedi ei amlinellu yn yr adroddiad ac yn cynnwys:-

- Ni allai Aelodau'r Cabinet fod yn Aelodau Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd fydd 11 Cynghorydd, ac ni ddylai gynnwys Aelod Cabinet, a chyda'r Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys.
- Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fydd y Pwyllgor Archwilio newydd, yn cynnwys 6 Chynghorydd etholedig, a heb gynnwys Aelod Cabinet, ac aelod lleyg, pob un i'w penodi gan y Cyngor llawn. Aelodaeth i gynnwys Is-gadeirydd y Cyngor ac ni ddylai Aelodau Llywodraethu Corfforaethol fod yn Aelodau Pwyllgor Craffu.
- Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol i gynnwys 1 Aelod Cabinet, yr Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am faterion Adnoddau Dynol fyddai orau.
- Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol i gynnwys 8 Cynghorydd, wedi eu penodi gan y grwpiau gwleidyddol, ac 8 cynrychiolydd undebau llafur.
- Aelod i'w benodi i'r Panel Maethu a'r Cyd-Banel Mabwysiadu.
- Aelodau'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAAG) i gynnwys 8 Cynghorydd a chynrychiolwyr o enwadau crefyddol, cymdeithasau athrawon ac aelodau cyfetholedig.
- Aelodaeth y Pwyllgor Safonau i gynnwys 2 Gynghorydd Sir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J Butterfield at y gwaith rhagorol a wnaed gan y Cynghorydd J Chamberain-Jones fel aelod o'r Panel Maethu a'r Cyd-banel Mabwysiadu a chefnogodd ei phenodiad i'r swydd. Heriodd ddyraniad seddau ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gofynnodd bod y ffigurau'n cael eu hadolygu a bod y Grŵp Llafur yn cael 3 sedd a'r Grŵp Annibynnol yn cael 1 sedd ar sail y ffaith mai'r Grŵp Llafur oedd y Grŵp mwyaf ar y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D.I. Smith ar ddyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod y mater wedi ei drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a

oedd wedi cadarnhau bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi pennu sut i benderfynu ar nifer y Cadeiryddion Pwyllgor Craffu y gallai'r Grwpiau eu dyrannu, ond nad oedd yn pennu proses ar gyfer dyrannu Pwyllgorau i Grwpiau. Byddai hyn yn fater i'r Grwpiau gwleidyddol ei benderfynu ac nid oedd yn fater i'w benderfynu gan y Cyngor.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, cyn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad, y byddai angen i'r Aelodau ystyried y cynnig a wnaed gan y Cynghorydd Butterfield, bod y ffigurau a oedd yn ymwneud â dosbarthu seddau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu hadolygu; o roddi'r mater i bleidlais, trechwyd y cynnig.

Roedd enwebiadau ar gyfer penodi 2 Aelod i'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys y Cynghorwyr R.J. Davies, W.L. Cowie, M.L. Holland a C. Hughes. Gwahoddwyd pob aelod i wneud cyflwyniad byr ac ar y pwynt hwn, tynnodd y Cynghorydd R.J. Davies ei enwebiad yn ôl. Cynhaliwyd pleidlais ddirgel ac fe benodwyd y Cynghorwyr W.L. Cowie a C. Hughes i'r Pwyllgo Safonau.

Ystyriodd y Cyngor yr argymhellion yn yr adroddiad ac ar ôl trafodaeth lawn, gan gynnwys ystyried enwebiadau gan Arweinwyr Grwpiau, fe:-

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Cyngor yn cytuno:*

*(a) Defnyddio'r tabl dyrannu i gael dyraniad gwleidyddol gytbwys seddau Pwyllgor fel y cynhwyswyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*
*(b) Dosbarthiad y seddau fel y nodwyd yn Atodiad 2 a bod y grwpiau gwleidyddol yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd o'r Aelodau a enwyd i'w seddau penodol cyn gynted ag y bo modd, ac eithrio penodiadau i'r Cabinet.*
*(c) Y penodiadau canlynol:-*

- *(i)* *Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Cabinet, y Cynghorwyr W.L. Cowie, S.A. Davies, M.L. Holland, G.M. Kensler, W.M. Mullen-James, R.M. Murray, P.W. Owen, T.M. Parry, A. Roberts a G. Sandilands i'w penodi i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda'r Cynghorydd B. Mellor yn Gadeirydd.*
- *(ii)* *Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Cabinet, y Cynghorwyr J.R. Bartley, S.A. Davies, M.L. Holland, G.M. Kensler, J.M. McLellan a D. Simmons i'w penodi i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.*
- *(iii)* *Penodi'r Cynghorydd J. Chamberlain-Jones i'r Panel Maethu a Chyd-banel Mabwysiadu, a'r*
- *(iv)* *Cynghorwyr W.L. Cowie a C. Hughes yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Safonau.*

*Dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl cyfweld ymgeiswyr am swydd aelod lleyg ar y Pwyllgor a gwneud argymhellion ar y penodiad i'r Cyngor llawn.*

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU

Roedd copi o'r cyd-adroddiad gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu a'r Cydgysylltydd Craffu, a oedd wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn unol â Chyfansoddion Sir Ddinbych, sef adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau yn ystod 2011/12, wedi ei gyflwyno gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd y Cydgysylltydd Craffu y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cynorthwyo gyda chyflwyno gwaith y Pwyllgorau Craffu a'r rôl i'r holl Aelodau etholedig. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau'r ymarfer hunanwerthuso a ymgymerwyd i fesur effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu. Y llynedd, roedd yr hunanwerthusiad wedi nodi rhai meysydd lle'r oedd angen gwaith pellach er mwyn eu cryfhau. Roedd y meysydd hyn wedi eu gwerthuso eto mewn perthynas â darganfyddiadau ymarfer eleni ac roedd y casgliad wedi ei gynnwys ar dudalennau 6 a 7 yr Adroddiad Blynyddol.

Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi mynegi pryderon ynglŷn â phroblem cael cworwm yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu. Tra nad oedd tystiolaeth bod hyn wedi amharu ar effeithiolrwydd craffu, teimlwyd bod posibilirwydd y byddai gwaith craffu a'r broses ddemocrataidd yn cael eu tanseilio yn y pen draw. O ganlyniad, roedd y Grŵp wedi argymell bod cofnod presenoldeb pob Aelod unigol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor, ar ddiwedd blwyddyn ddinesig 2012/13, yn cael ei gofnodi yn yr Adroddiad Blynyddol. Byddai cofnodion cyfarfod yn nodi ymddiheuriadau a gyflwynwyd, os byddant wedi eu cyflwyno cyn cynnal y cyfarfod.

Roedd strwythur newydd y Pwyllgorau Craffu wedi ei gyflwyno yn 2011/12 gyda phedwar Pwyllgor Craffu gweithredol yn cael eu disodli gan dri Phwyllgor thematig. Roedd manylion adolygiad o'r strwythur newydd wedi ei werthuso a'i gynnwys yn yr Adroddiad. Y casgliad cyffredinol, yn amodol ar ychydig o fân addasiadau, oedd bod y strwythur newydd yn addas i'w bwrpas.

Roedd manylion y pwerau a'r dyletswyddau newydd i'w rhoi i Bwyllgorau Craffu Awdurdod Lleol, ar ôl gweithredu darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad. Byddai gwybodaeth bellach ar y darpariaethau, a'r opsiynau a gynigir ganddynt, yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau ar ôl cyhoeddi'r canllaw statudol terfynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H Ll Jones at benodi Aelodau newydd i'r Cyngor a phwysigrwydd nodi'r newidiadau a'r gwaith a wnaed gan y swyddogaeth graffu yn ystod flwyddyn ddiwethaf. Amlygwyd yr angen i sicrhau bod cworwm yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a chadarnhawyd y bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol 2012/13. Roedd pamffled ar waith craffu wedi ei gyhoeddi i ysgogi diddordeb trigolion yn y gwaith craffu a byddai hyn yn cael ei wneud eto i grynhoi gwaith craffu 2012/13. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at baragraff 4.8 yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r pwerau a'r dyletswyddau newydd a ddaeth i ran Pwyllgorau Craffu dan ddarpariaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac Atodiad 7, y Siart Cyfeirio a Rhyngwneb Craffu, a oedd yn amlinellu rôl a statws craffu o fewn y Cyngor.

Esboniodd y Cynghorydd D I Smith bod bod yn Aelod o'r Pwyllgor Craffu yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar agweddau gweithredol y Cyngor Cyfeiriodd at nifer o faterion

a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac esboniodd ei fod yn falch o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor a'r canlyniadau a ddeilliodd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R L Feeley at effeithiolrwydd gwaith craffu a oedd wedi ei gymeradwyo gan Adroddiad Archwilio Estyn, fel y nodwyd ar dudalen 39 yr Adroddiad Blynyddol. Esboniodd bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi cysylltu Aelodau'n llwyddiannus â heriau effeithlonrwydd gwasanaeth a oedd wedi cynorthwyo o ran dosbarthu baich gwaith a chyfrifoldebau.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r aelodau a'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a'r hunanwerthusiad mewn perthynas â'r broses graffu a phwysleisiodd y materion canlynol a oedd angen gwaith a thrafodaeth bellach yn ystod y flwyddyn i ddod yn ei farn ef:-

- Pwysigrwydd presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a'r angen i sicrhau pennu amcan bod cworwm i bob cyfarfod bob amser.
- Ystyried barn Aelodau ar amser a lleoliad cyfarfodydd, gyda chyfeiriad penodol at y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd gyda'r nos.
- Cyfathrebu rhwng y Cabinet a Chraffu a dosbarthu gwybodaeth yn hanfodol i agweddau gweithredol y Cyngor, Y Cabinet yn cael eitem benodol ar y rhaglen ar gyfer materion a gyfeirir gan Bwyllgorau Craffu, effeithiolrwydd y broses galw i mewn a chynnwys Arweinwyr Grwpiau ar y Cabinet i wella atebolrwydd a chyfathrebu.
- Pwysigrwydd mater craffu personau dynodedig a rhoi'r cyfle i alw i gyfrif a chraffu'r sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Rôl y Byrddau Rhaglen o ran darparu Aelodau craffu gyda'r cyfle i gymryd rhan yng ngweithrediadau mewnol yr Awdurdod.
- Rôl Hyrwyddwyr a'r angen am ganllawiau pellach a chymorth wrth sicrhau eu bod yn effeithiol. Awgrymodd y Cynghorydd J. Butterfield bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol gan Hyrwyddwyr yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn eu rolau unigol.

Mewn ymateb i gyfeiriad y Cynghorydd C Hughes at y pŵer i gyfethol aelodau nad oeddynt yn aelodau'r Cyngor fel aelodau Pwyllgorau Craffu Awdurdod Lleol esboniodd y Cynghorwyr R.L. Feeley a G.M. Kensler y buasent yn croesawu penodi personau gyda gwybodaeth arbenigol mewn meysydd penodol. Serch hynny, teimlent y dylai'r Awdurdod fod yn ofalus o ran penodi aelodau cyfetholedig fel aelodau llawn y Pwyllgor a chyfeiriodd y Cynghorydd Feeley at y broses ddemocrataidd o benodi Aelodau'r Cyngor. Cyfeiriodd y Cynghorydd H. Hilditch Roberts at bwysigrwydd adrodd am y gwaith a wnaed gan y Cyngor a'r angen am well cyfathrebu gyda'r cyhoedd.

Cyfeiriodd nifer o'r Aelodau at y gwaith canmoladwy a wnaed gan Hyrwyddwyr a rhoddodd nifer o'r Hyrwyddwyr fanylion y gwaith a wnânt yn eu rolau penodol. Esboniodd y Cadeirydd y dylai'r gwaith a wnaed gan Hyrwyddwyr gael mwy o gyhoeddusrwydd o fewn y Siambr ac yn allanol.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr Aelodau mewn perthynas â phresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai manylion cofnodion presenoldeb Aelodau yn

cael eu cyhoeddi ar y wefan ac yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Fodd bynnag, roedd y gyfraith yn pennu'r nifer lleiaf o gyfarfodydd yr oedd angen eu mynychu.

Cefnogodd yr Aelodau y farn a fynegwyd gan y Cynghorydd E W Williams y dylid cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yr oedd yr adroddiad yn ymwneud â hi.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, eiliwyd cynnig gan y Cynghorydd M Ll Davies i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol gan y Cynghorydd S A Davies, ac o roddi'r mater i bleidlais, derbyniwyd y cynnig.

***PENDERFYNWYD** – bod y Cyngor yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2012/13 ac yn cydnabod sylwadau'r Aelodau.*

## 6 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, a oedd yn manylu'r opsiynau i ddyrannu Uwch Gyflogau yn unol ag argymhelliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Yn ei gyfarfod ar 15fed Mai, 2012, ystyriodd y Cyngor adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau a oedd yn nodi'r darpriaethau yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Dyrannodd y Cyngor 14 Uwch Gyflog a mynegi dymuniad i ystyried opsiynau mewn perthynas â sut dylid dyrannu'r 3 Uwch Gyflog posibl arall.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd grynodeb o'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion:

- Talu Uwch Gyflogau.
- Talu Cyflogau Dinesig i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor.
- Nifer yr Uwch Gyflogau y caiff y Cyngor eu dyrannu wedi eu cyfyngu i 17.
- Swyddi a bennwyd gan y Panel i'r rhain y gellid dyrannu Uwch Gyflog.

Esboniwyd y caiff y Cyngor, ond nad oedd yn rhai iddo, ddyrannu 3 Uwch Gyflog arall. Roedd y Cyngor wedi penderfynu na fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn denu Uwch Gyflog gan fod y Pwyllgor ond yn debygol o gyfarfod unwaith y flwyddyn. Y swyddi eraill a oedd ar gael ar gyfer Uwch Gyflog oedd Band 3 – Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf a Band 4 – Arweinwyr Grwpiau gwleidyddol eraill. Atgoffwyd yr Aelodau bod 4 Grŵp Gwleidyddol ar y Cyngor, a dim ond 3 Uwch Gyflog a gaiff eu dyrannu.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd grynodeb o'r 4 opsiwn posibl i'w hystyried gan y Cyngor, a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â'r costau perthnasol a'r effaith bosibl ar wasanaethau eraill.

Mynegodd y Cynghorydd S A Davies yr angen i gadw'r lwfansau a chefnogodd yr egwyddor a ymgorfforwyd yn Opsiwn 3, ac awgrymodd y dylid ystyried opsiynau eraill, megis y posibilrwydd o gynnwys taliadau i Hyrwyddwyr, ar gyfer y 2 Uwch Gyflog a oedd ar ôl. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fanylion y Mesur a oedd yn gofyn i'r Cyngor weithredu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a oedd yn nodi'r uwch gyflogau y gellid eu talu, fel y nodwyd yn 4.5 yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorwyr C. Hughes a G.M. Kensler at benodi Arweinwyr Grwpiau i'r Cabinet, yr amserlen ar gyfer adolygu cydnabyddiaeth ariannol Aelodau mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol a monitro perfformiad Arweinwyr Grwpiau.

Amlygodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill ddau beth y teimlai y dylid eu hystyried, sef elfen cyfiawnhad dyrannu cyflogau i Arweinwyr Grwpiau ac ystyried sefyllfa lle byddai Arweinydd Grŵp, sydd hefyd yn Aelod Cabinet, yn hepgor cyflog Aelod Cabinet os yw'n gadael y swydd. Esboniodd ei fod yn teimlo mai Opsiwn 1 fyddai'r Opsiwn gorau, a cyfyngu nifer Uwch Gyflogau i 14.

Cefnogodd y Cynghorydd T.R. Hughes Opsiwn 1 gyda'r awgrym y gellid defnyddio'r arian a arbedwyd i ddarparu bagiau hel baw cŵn, yn hytrach na darparu hyfforddiant ychwanegol i Aelodau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Councillor E.W. Williams at y costau a oedd yn gysylltiedig â delio â phroblem baw cŵn ac awgrymodd bod hyn yn cael ei ystyried ar wahân.

Esboniwyd gan y Cynghorydd H.H. Evans mai un o brif broblemau'r Cyngor blaenorol oedd cyfathrebu aneffeithiol rhwng y grŵp gweithredol a'r Aelodau. Teimlai y byddai penodi Arweinwyr Grwpiau ar y Cabinet yn rhoi arweiniad gwleidyddol cryfach a gwella atebolrwydd. Cyfeiriodd at Gyfansoddiad y Cyngor a oedd yn cyfeirio at gyfyngu taliadau i Arweinwyr Grwpiau gyda llai na 5 Aelod, ac awgrymodd y byddai Opsiwn 3 yn cynorthwyo gyda delio â'r broblem trwy ddarparu datblygiad Aelodau y gellid ei ddiffinio ar ôl trafodaethau rhwng yr Aelodau perthnasol a'u grwpiau. Mynegodd y Cynghorydd J. Butterfield hefyd ei chefnogaeth i Opsiwn 3 a phwysleisiodd bwysigrwydd datblygiad Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cynigiwyd Opsiwn 3 gan y Cynghorydd B. Blakeley a'i eilio gan y Cynghorydd C. Hughes ac o roddi hyn i bleidlais, derbyniwyd Opsiwn 3.

***PENDERFYNWYD** – bod y Cyngor yn cytuno ag Opsiwn 3, i ddyrannu Uwch Gyflog i Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid fwyaf, a chyfyngu nifer yr Uwch Gyflogau i 15. Gellid defnyddio'r arian a fyddai wedi bod yn daladwy mewn perthynas â dau Arweinydd Grŵp ar gyfer Datblygu Aelodau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55a.m.